Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Cynllun Datblygu Garddwriaeth

*Canllaw Sut i Lenwi'r Ffurflen Gais Lawn*

Mawrth 2022

# Cynnwys

Gwybodaeth ........ 3
Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein ........ 4
Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein ........ 4
Tudalen fewngofnodi Porth y Llywodraeth ........ 4
Hafan ........ 5
Y Dudalen Ffurflenni ........ 7
Ffurflen Gais y Cynllun Datblygu Garddwriaeth – Dechrau'r Cais ........ 8
Parhau â'r Cais / Dechrau Eto ........ 9
Cyflwyniad ........ 11
Hysbysiad Preifatrwydd ........ 12
Trosolwg ar y Prosiect ........ 15
Cynllun y Busnes/Prosiect ........ 17
Cynllun y Busnes/Prosiect – Ffit Strategol ........ 18
Cynllun y Busnes/Prosiect – Addasrwydd y Buddsoddiad ........ 20
Cynllun y Busnes/Prosiect – Cynaliadwyedd Hirdymor ........ 22
Cynllun y Busnes / Prosiect – Gwerth am Arian ........ 24
Gwerth Uchaf ac Isaf y Prosiect ........ 29
Cynllun y Busnes/Prosiect – Y Prosiect Cyflawni ........ 31
Cynllun y Busnes/Prosiect – Cyflawni – Risg a Rheoli Risg ........ 34
Cynllun y Busnes/Prosiect - Rheoli'r Prosiect ........ 36
Cynllun y Busnes/Prosiect - Themâu Trawsbynciol ........ 38
Cynllun y Busnes/Prosiect – Dangosyddion a Chanlyniadau ........ 40
Dangosyddion a Chanlyniadau ........ 42
Cynllun y Busnes/Prosiect - Ariannol a Chydymffurfio ........ 45
Pob prosiect ........ 45
Rhestr o'r Dogfennau Atodol sydd eu hangen ........ 47
Cyflwyno ........ 48
Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb ........ 48
Datganiad ac Ymrwymiadau ........ 49
Tudalen Gyflwyno ........ 50
Beth fydd yn digwydd nesaf? ........ 51
Cysylltiadau ........ 52
Ymholiadau - y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ........ 52

# Gwybodaeth

Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r camau ar gyfer llenwi'ch cais ar gyfer y Cynllun Datblygu Garddwriaeth a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i chi lenwi ffurflen ar-lein, gan roi manylion eich prosiect i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi allu asesu a yw'ch cais yn dderbyniol, ac os ydyw, bydd yn rhoi sgôr ichi ar gyfer eich dewis. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod beth fydd canlyniad y broses, a dim ond ceisiadau fydd wedi'u dewis fydd yn cael eu gwerthuso'n llawn ar gyfer eu hystyried am gontract a grant.

Darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus. Bydd angen i chi ddarllen y Nodiadau Canllaw hefyd, gan eu bod yn cynnwys manylion llawn y cyfleoedd sydd ar gael yn ogystal â'r meini prawf ynghylch pwy sy'n gymwys.

Yn achos prosiectau fydd yn cael eu dewis, penderfynir ar faint o arian fydd ar gael ar gyfer pob cais pan gaiff y cais ei werthuso ac ni phenderfynir ar y swm terfynol nes y bydd y prosesau asesu a gwerthuso wedi'u cwblhau. Ni fydd y grant terfynol a roddir yn fwy na'r swm y byddwch wedi'i nodi yn eich cais a'r terfyn uchaf yw £50,000.

Rhaid cyflwyno ceisiadau'n electronig trwy RPW Ar-lein. Gellir cyflwyno ceisiadau unrhyw adeg rhwng dyddiad agor a dyddiad cau'r cynllun. Ni fydd modd cael estyniad.

Nid oes rhaid aros tan ddiwedd y cyfnod ymgeisio cyn cyflwyno ceisiadau. Rydym yn eich cynghori'n gryf i gyflwyno'ch cais cyn gynted â phosibl.

Rhaid ichi lenwi a chyflwyno'r cynlluniau a'r dogfennau canlynol:

- Y Cais Ar-lein ar gyfer y Cynllun Datblygu Garddwriaeth
- Cynllun busnes
- 3 blynedd o Gyfrifon Ardystiedig
- 3 blynedd o ragolygon ariannol.
- Tystiolaeth o'r arian sydd ar gael (benthyciad gan y banc, gorddrafft ac ati)
- Tri dyfynbris ar gyfer pob eitem buddsoddi (dim ond un dyfynbris sydd ei angen ar gyfer eitemau gwerth llai na £5,000).
- Tystiolaeth bod y busnes yn cynhyrchu cnydau garddwriaethol masnachol

Cydsyniad cynllunio a Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS): Os oes angen cydsyniad cynllunio a SuDS ar eich buddsoddiad, cynhwyswch unrhyw gydsyniad cynllunio rydych wedi'i gael (bydd angen tystiolaeth eich bod wedi cael y cydsyniad sydd ei angen cyn y gallwn brosesu hawliad grant).

Os bydd gwybodaeth ar goll byddwn yn gofyn amdani, ond bydd hyn yn arafu'r broses o asesu eich cais.

Pwysig: Os cewch broblemau gydag RPW Ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Yn ôl i'r Cynnwys


# Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein. I gael mwy o fanylion, darllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru. Os oes angen newid manylion eich busnes, gallwch newid y rhan fwyaf ohonyn nhw ar-lein. Ond, efallai y bydd angen mwy o fanylion ar Lywodraeth Cymru ar gyfer newidiadau mawr. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

# Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein

## Tudalen fewngofnodi Porth y Llywodraeth

Mewngofnodwch i'ch Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Rhif Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.





Os ydych yn cael trafferth neu'n ei chael hi'n anodd mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Yn ôl i'r Cynnwys

# Hafan


Ar ôl mewngofnodi ar eich cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein.




Yn yr adran ‘Dechrau Ffurflen’ ar waelod y sgrin Hafan, cliciwch ar enw’r cynllun rydych am wneud cais amdano. Bydd ffurflen y Cynllun Datblygu Garddwriaeth ar gael yma tan ddyddiad olaf y cyfnod ymgeisio.



**Neu** gallwch glicio ar y tab **'Ffurflenni'** yn hafan RPW Ar-lein, fel y dangosir isod:





Bydd hyn yn mynd â chi at y dudalen 'Ffurflenni'.

I newid yr iaith unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm **Cymraeg / English** ar ochr dde ucha'r sgrin. Gallwch ei ddefnyddio i ddewis yr iaith y gwelwch Ffurflen Gais y Cynllun Datblygu Garddwriaeth ynddi.

[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Y Dudalen Ffurflenni

Ar ôl dewis y tab ‘Ffurflenni’, byddwch yn gweld y ffurflenni sydd ar gael i chi eu llenwi.





Sgroliwch i lawr y dudalen i ddewis y ffurflen yr ydych am ei chyflwyno.

[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Ffurflen Gais y Cynllun Datblygu Garddwriaeth – Dechrau’r Cais

Ar ôl i chi ddarllen Llyfryn Rheolau Cyffredinol y Cynllun Datblygu Garddwriaeth yn Grantiau a thaliadau gwledig, cliciwch ar y botwm **Dechrau** i gychwyn eich ffurflen gais.





Mae’r dudalen hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ichi cyn dechrau’r cais. Mae dolen ynddi i’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid os oes angen, ynghyd â’ch Manylion Cwsmer a’r Dewisiadau Ar-lein sydd gennym amdanoch. Darllenwch nhw a’u newid cyn cychwyn eich cais os ydyn nhw’n anghywir.

Yn ôl i'r Cynnwys

# Parhau â'r Cais / Dechrau Eto

Ar ôl dechrau llenwi'ch cais, gallwch ddewis ei adael a dod yn ôl ato nes ymlaen.  Os ydych yn dod yn ôl at gais rydych eisoes wedi dechrau ei lenwi, cliciwch ar Parhau ar y sgrin hon (y botwm glas ar waelod y sgrin) neu os ydych am ddechrau eto, cliciwch ar y botwm Dechrau Eto a welwch ar y sgrinlun hwn:




## Parhau â Chais parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Ffurflen Cynllun Datblygu Garddwriaeth.** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **Ffurflen Cynllun Datblygu Garddwriaeth.**

Cewch ddewis dileu'ch **Ffurflen Cynllun Datblygu Garddwriaeth** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **Ffurflen Cynllun Datblygu Garddwriaeth** a llenwir y **Ffurflen Cynllun Datblygu Garddwriaeth** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2022. Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn 31 Rhagfyr 2022.

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Ffurflen Cynllun Datblygu Garddwriaeth** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
Enw Masnachu
Cyfeiriad
Côd Post
Rhif Ffôn
Cyfeiriad e-bost
Nifer y Partneriaid 1


Dewisiadau Ar-lein
E-bost ynte neges destun (SMS) Y ddau
Cyfeiriad e-bost
Rhif ffôn symudol

Parhau i weithio ar **Ffurflen Cynllun Datblygu Garddwriaeth** a gafodd ei ddiweddaru ar 24/03/2022 am 11:51 gan

Parhau Yn ôl

Cofiwch – trwy glicio ar **Dechrau Eto**, byddwch yn colli'r holl wybodaeth y byddwch wedi'i llenwi hyd yma.

Os ydych yn siŵr eich bod am Ddechrau Eto, cliciwch ar Ydw, neu fel arall cliciwch ar Na, fel y gwelwch ar y sgrinlun hwn:





[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

# Cyflwyniad

Dyma dudalen y cyflwyniad sy'n rhoi gwybodaeth ichi am y Cynllun Datblygu Garddwriaeth.  I gael mwy o fanylion, darllenwch [Lyfryn Rheolau'r Cynllun Datblygu Garddwriaeth](#).

Mae dolen i'r Canllaw Sut i Lenwi hwn yng nghornel chwith uchaf y sgrin hon. Cliciwch hefyd ar 'Sut i Lenwi' i agor y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar y chwith, fe welwch restr o'r adrannau gwahanol.  Mae croes goch yn dangos naill ai'ch bod heb fod yn yr adran honno eto neu'ch bod wedi gwneud camgymeriad ynddi.  Bydd tic gwyrdd yn ymddangos wrth bob adran rydych wedi'i chwblhau heb gamgymeriadau.  Mae nifer o fotymau llywio ar dop ac ar waelod y ffurflen.  Hefyd, os ydych am newid iaith rhwng Cymraeg a Saesneg, mae botwm ichi allu gwneud hynny yng nghornel chwith isaf y sgrin, fel y gwelwch ar y sgrinlun isod:





Ar ôl i chi ddarllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





[Yn ôl i'r Cynnwys](#)

# Hysbysiad Preifatrwydd

Ar y dudalen Hysbysiad Preifatrwydd, rydym yn esbonio’ch hawliau a beth byddwn yn ei wneud â’ch gwybodaeth i brosesu’ch cais.  Rhaid darllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.





Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch ar **Nesaf**.




[Yn ôl i'r Cynnwys]

Ar y dudalen ‘Manylion y Busnes/Sefydliad’, byddwch yn rhoi gwybodaeth am eich busnes, er enghraifft sut fath o fusnes sydd gennych, rhifau Cwmni, TAW neu Elusen, maint eich busnes/sefydliad a faint o staff sydd gennych.  Byddwn yn defnyddio’r wybodaeth i weld a ydych yn gymwys i gael y grant dan sylw.

Rhaid ateb y rhan fwyaf o’r cwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.


Ffurflen Cynllun Datblygu Garddwriaeth
Help
Cyflwyniad
Hysbysiad Preifatrwydd
Manylion y Busnes/Corff
Trosolwg ar y Prosiect
Cynllun Busnes/Prosiect
Rhestr o'r Dogfennau Atodol sydd eu hangen
Cyflwyno

Manylion y Busnes/Corff

Yn ôl | Safio | Nesaf

*Rhaid ateb cwestiynau wedi'u marcio â * .*

**Statws y Busnes/Sefydliad**

Ar gyfer pa fath o Fusnes/Sefydliad y mae'r cais hwn?*
- Unig fasnachwr
- Partneriaeth
- Cwmni cyfyngedig preifat
- Cwmni cyfyngedig cyhoeddus
- Corff sector cyhoeddus
- Cwmni Cydweithredol neu Gydfuddiannol neu Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus
- Elusen / Trydydd Sector
- Cyngor Tref / Cymuned
- Cwmni cyfyngedig preifat drwy warant
- Grwpiau Cymunedol Lleol
- Awdurdodau Lleol
- Mae Llywodraeth Cymru
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol
- Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol
- Prifysgol
- Arall

Os yw'r busnes yn gwmni cyfyngedig, dylech anfon copi o'r Memorandwm ac Erthyglau.

A yw'r busnes yn masnachu dan enw arall?* Ydy / Nac ydy

**Busnes/Sefydliad**

Rhowch yr holl Gyfeirnodau Busnes/Sefydliad sy'n berthnasol:

Rhif y Cwmni

Rhif TAW

Rhif Elusen

Rhif Cofrestru Cyhoeddus Cwmni Cydfuddiannol

Ydy'r Busnes/ Sefydliad yn aelod o grŵp o gwmnïau?* Ydy / Nac ydy

A oes gan y Busnes/Sefydliad gyfranddalwyr?* Oes / Nac Oes

Oes gan y Busnes/Sefydliad gyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr?* Oes / Nac Oes

Ydy'r Busnes/Sefydliad yn is-gwmni mewn perchenogaeth lwyr?* Ydy / Nac ydy

**Maint y Busnes/Sefydliad**

Dewiswch faint y Busnes/Sefydliad*
- Micro-fenter (hyd at 9 o weithwyr)
- Menter BBaCH (rhwng 10 a 250 o weithwyr)
- Menter fawr (mwy na 250 o weithwyr)

Rhowch y manylion canlynol os gwelwch yn dda


Nifer y Gweithwyr (Cyfwerth ag Amser Llawn) *

Trosiant Gros Blynyddol (am y flwyddyn ariannol ddiwethaf) (£) *


Asedau Net ar y Fantolen (am y flwyddyn ariannol ddiwethaf) (£)*

Printio | English | Gadael | Yn ôl | Safio | Nesaf

Bydd angen rhagor o fanylion ar ambell gwestiwn, gan ddibynnu ar yr ateb y byddwch yn ei roi – fel y gwelwch isod.




Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





[Yn ôl i'r Cynnwys](#)


# Trosolwg ar y Prosiect

Ar y dudalen ‘Trosolwg ar y Prosiect’, bydd gofyn i chi roi rhywfaint o wybodaeth gyffredinol am y Prosiect, fel enw’r prosiect, disgrifiad ohono, ei leoliad a’r dyddiadau cychwyn a gorffen.


Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.




Rhowch eich cod post yn y blwch a chliciwch ar y botwm **Chwilio am gyfeiriad.**



Dewiswch gyfeiriad o’r rhestr.  Yna rhowch ddyddiad dechrau a dyddiad gorffen y prosiect.  Gallwch naill ai deipio’r dyddiadau neu glicio ar eicon y calendr fel y dangosir isod.  Ni chaiff y prosiect bara mwy na 12 mis, a rhaid cyflwyno pob hawliad erbyn 31 Mawrth 2024.




Ar ôl i chi roi’r wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**




Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect

Mae adran nesa'r ffurflen yn eich holi am gynllun eich prosiect. Rhaid i bawb sy'n gwneud cais am grant lenwi Cynllun Prosiect.  Mae templed safonol i Gynllun Prosiect, ac mae ganddo ddeg pennawd.




Caiff yr wybodaeth a roddwch o dan bob pennawd ei defnyddio i asesu a gwerthuso'ch cais ac i benderfynu a ddylai grant gael ei roi i'ch prosiect.

**Pwysig: os bydd angen gofyn ichi am ragor o wybodaeth, gallai hynny arafu prosesau asesu'r cais felly rydym yn eich cynghori'n gryf i ddilyn y canllawiau'n fanwl a rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani.  Ond os bydd unrhyw beth yn aneglur neu os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, fe wnawn ni gysylltu â chi.**

Mae'n bwysig cofio bod yn rhaid i'r manylder ym mhob adran fod yn briodol ac yn gymesur â chwmpas a maint y prosiect dan sylw.

[Yn ôl i'r Cynnwys]


# Cynllun y Busnes/Prosiect – Ffit Strategol

Yn yr adran Ffit Strategol, bydd gofyn ichi esbonio sut y bydd eich prosiect yn cyfrannu at amcanion a nodau strategol y Cynllun a ddisgrifir yn Nodiadau Canllaw'r Cynllun.

Bydd angen ichi esbonio'n glir sut y bydd y buddsoddiad yn cyfrannu at amcanion a nodau strategol y cynllun ac egluro pam mae angen y buddsoddiad. Bydd angen ichi esbonio sut bydd y buddsoddiad yn gwella perfformiad technegol ac ariannol y busnes a sut y bydd y buddsoddiad yn galluogi'r busnes i gynhyrchu mwy mewn ffordd gynaliadwy.


Bydd angen ichi ddangos bod eich prosiect yn arloesol a'i fod yn defnyddio technegau arloesol. Gallai hynny olygu technegau newydd fydd yn golygu newid mawr i'r busnes ei hun neu ddefnyddio technoleg sy'n arwain y diwydiant.

Fe welwch yr adran Ffit Strategol ar y sgrinlun isod:



Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau, nid nifer y geiriau.  Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl ateb cwestiynau’r adran hon, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




Yn ôl i'r Cynnwys


# Cynllun y Busnes/Prosiect – Addasrwydd y Buddsoddiad

Ar y dudalen Addasrwydd y Buddsoddiad, byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni allu gwerthuso sut y bydd y prosiect yn effeithio ar yr amgylchedd ac yn cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd:

Esboniwch sut y bydd y busnes/sefydliad yn cynyddu cynhyrchiant a throsiant.

Disgrifiwch sut y bydd y buddsoddiad yn helpu’r busnes i dyfu cnydau’n gynaliadwy ac yn gwella ansawdd y dŵr, pridd ac aer.


Esboniwch sut y bydd eich cynllun yn defnyddio maetholion yn effeithiol, yn lleihau allyriadau ac yn gwella ecosystem y fferm.




Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.


Ar ôl ateb cwestiynau'r adran hon, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Cynaliadwyedd Hirdymor


Ar y dudalen ‘Cynaliadwyedd Hirdymor’, byddwch yn esbonio, gan roi tystiolaeth, sut y caiff y buddsoddiad effaith bositif ar gynaliadwyedd hirdymor y busnes, gan gynnwys sut y gallai’r buddsoddiad annog rhagor o fuddsoddi yn y dyfodol.




Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl ichi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Busnes / Prosiect – Gwerth am Arian

Ar y dudalen Gwerth am Arian, byddwch yn rhoi gwybodaeth am gostau'r Prosiect a'r dyfynbrisiau.

I gwblhau'r adran hon, rhaid darllen y Nodiadau Canllaw Technegol ar Dendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus o dan raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 cyn i chi fynd i unrhyw gost. Am fwy o wybodaeth gweler:

Nodiadau Canllaw Technegol ar Dendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus

Cofrestr a Chofnod Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus

Yn yr adran hon, rhowch fanylion y cynnydd rydych yn ei ddisgwyl yn eich trosiant o fewn tair blynedd ar ôl cwblhau'r prosiect gan esbonio sut y penderfynoch chi ar y rhagolygon hyn.

Yn yr adran hon:

- Cynhwyswch yr holl wariant arfaethedig ac esboniwch sut rydych wedi amcangyfrif cyfanswm costau'r prosiect.
- Esboniwch sut rydych wedi ystyried costau'r prosiect, gan gynnwys cwmpas, maint ac amserlen y cynigion.
- Rhowch dystiolaeth sut rydych wedi casglu dyfynbrisiau neu rowch gopïau o'r dyfynbrisiau os ydyn nhw ar gael. Bydd angen o leiaf tri dyfynbris os yw'r eitem a brynir yn werth £5,000 neu fwy. Dim ond un dyfynbris sydd ei angen os yw'n llai na £5,000. Rhaid i'r dyfynbris gynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i allu adnabod y cyflenwr gan gynnwys cyfeiriad, manylion cysylltu a rhif cofrestru'r cwmni (rhif TAW hefyd os yw'n gymwys).
- Lle bo gofyn, dangoswch sut y mae opsiynau gwahanol ar gyfer cyflawni amcanion y prosict wedi'u hystyried ac esboniwch pam a sut y gwnaethoch chi ddewis yr opsiwn a ddewiswyd.


Rhaid i'r holl gyflenwyr fod yn fusnesau go iawn h.y. eu bod yn fusnesau sydd wedi ennill eu plwyf ac sy'n hysbysebu'r gwasanaeth sydd ei angen.  Os nad yw'r busnes ar y rhyngrwyd neu â chofnod gyda Thŷ'r Cwmnïau, bydd angen rhagor o wybodaeth yn y rhan hon o'r ffurflen. Nid yw hyn yn anghyffredin, ond bydd angen tystiolaeth ei fod yn ymgymryd â'r gwaith dan sylw.  Gallai hynny fod ar ffurf:

- Llythyr oddi wrth ei gyfrifydd
- Gohebiaeth â'r HMRC am y busnes
- Derbynebau perthnasol
- Gohebiaeth â'r awdurdod lleol
- Tair blynedd o gyfrifon


**I lenwi'r adran hon am ddyfynbrisiau, rhaid eich bod wedi cael un dyfynbris ar gyfer pob eitem fuddsoddi sy'n werth hyd at £5,000.  Ar gyfer eitemau dros £5,000, rhaid cael tri dyfynbris.  Rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth o'r dyfynbrisiau hyn gyda'r cais hwn.**

Mae tudalen gyntaf yr adran Gwerth am Arian i'w gweld yn y sgrinlun isod.


Mae modd ymestyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau, nid nifer y geiriau.  Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb eu hateb.



Cliciwch ar y botwm **Ychwanegwch yr eitem yr ydych yn buddsoddi ynddi**. Os oes gennych fwy nag un eitem o dan gategori penodol, yna dylech gyfuno’r gostau fel bod gennych gyfanswm ar gyfer pob categori. Disgrifiwch eitemau unigol y cyfanswm hwn yn y blwch ‘Rhowch fanylion’.




Pan gyrhaeddwch y tabl ‘Eitem Buddsoddi’, bydd angen ichi glicio ar y botwm **Ychwanegu Eitem Buddsoddi** i fynd yn eich blaen a nodi’ch dyfynbrisiau.





Wrth glicio ar y botwm **Eitem**, fe fydd rhestr o opsiynau yn ymddangos ichi ddewis ohonyn nhw.

Gallwch naill ai chwilio trwy'r rhestr am yr eitem sydd ei hangen arnoch neu ddechrau teipio'r llythrennau cyntaf yn y bar chwilio a chael hyd i'r eitemau sy'n cyfateb.





Dewiswch yr eitem o'r rhestr.

Cliciwch ar **Ychwanegu Dyfynbris** ac fe welwch y dudalen isod. Nodwch fanylion y dyfynbris. Os ydych am nodi dim ond un dyfynbris ar gyfer yr eitem fuddsoddi hon, bydd angen ichi dicio'r blwch 'Dyfynbris a Ffefrir'.





Os mai'r ateb i'r cwestiwn *A oes angen ichi neu unrhyw un sy'n rhan o'r prosiect ddatgan diddordeb yn y cyflenwr hwn?* yw 'Oes', bydd blwch testun yn ymddangos ichi roi manylion y camau y mae'r Busnes/Sefydliad wedi'u cymryd i leihau'r gwrthdaro buddiannau hwnnw. Rhaid ateb y cwestiwn hwn i gael mynd yn eich blaen gyda'r cais hwn.




Ar ôl nodi'r dyfynbris, cewch y dewis i 'Safio ac Ychwanegu Un Arall' neu 'Cadw a Dychwelyd' at y dudalen Eitem Buddsoddi.


Ar ôl ichi ddychwelyd at y dudalen Eitem Buddsoddi, dangosir y dyfynbris rydych wedi'i ychwanegu.




Os yw gwerth eich dyfynbris yn fwy na £5,000, a dim ond un dyfynbris sydd gennych i'w gyflwyno, rhaid ichi dicio'r blwch i ddangos eich bod am gyflwyno'r cais gyda llai na'r tri dyfynbris gofynnol ar gyfer yr eitem fuddsoddi hon.  Fe welwch flwch testun lle gallwch esbonio pam eich bod yn cyflwyno llai na tri dyfynbris ar gyfer yr eitem fuddsoddi hon.




Yna cewch yr opsiwn i 'Safio ac Ychwanegu Un Arall' neu i 'Cadw a Dychwelyd' i'r dudalen Gwerth am Arian.





[Yn ôl i'r Cynnwys]

## Gwerth Uchaf ac Isaf y Prosiect


Y grant mwyaf y cewch wneud cais amdano o dan y Cynllun Datblygu Garddwriaeth yw £50,000. Ni chaiff gwerth y dyfynbrisiau yn y tabl yn yr adran hon fod yn fwy na hynny.




Bydd neges ar sgrin yn ymddangos: '*Rydych wedi mynd dros y grant mwyaf o £50000. Byddwn yn rhan-ariannu un eitem.'* i adlewyrchu hyn:


Os bydd nifer o eitemau buddsoddi yn werth mwy nag uchafswm y grant o £50,000, rhaid ichi ddileu un eitem gan fod yr eitemau buddsoddi eraill eisoes wedi mynd dros yr uchafswm.




Os na fydd yr eitemau buddsoddi'n werth cymaint â gwerth grant isaf y Cynllun Datblygu Garddwriaeth o £3,000, bydd neges yn ymddangos ar y sgrin i ddweud hynny. Ni fydd modd i chi fwrw ymlaen â'ch cais nes bod y cais yn werth o leiaf y grant lleiaf.




Ar ôl ichi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Y Prosiect Cyflawni


Ar y dudalen Cyflawni – Y Prosiect Cyflawni, byddwch yn disgrifio'r gwaith y bydd y Busnes/Sefydliad yn ei wneud.

Yn yr adran hon, bydd gofyn ichi esbonio beth yw diben yr arian rydych yn ei gael a phwy fydd ei angen arnoch i gyflawni'r diben hwnnw, gan gynnwys:


- Amserlen i gynnal holl weithgareddau a chamau'ch prosiect
- Sut ydych yn bwriadu cynnal eich prosiect.
- Y prif weithgareddau y bydd angen eu cynnal
- Yr adnoddau y bydd eu hangen i gynnal y prosiect
- Pwy fydd yn rheoli'r gwaith
- Disgrifiwch sut ydych wedi pennu'r amserlenni
- Effaith y prosiect ar eich gallu i gynhyrchu

Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau, nid nifer y geiriau.


Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb eu hateb.



Ar ôl ateb y cwestiwn cyntaf, bydd angen ichi ychwanegu Gweithgareddau'r Prosiect. Cliciwch ar y botwm **Ychwanegu Gweithgaredd** i fynd yn eich blaen.




Ar ôl clicio ar y botwm **Ychwanegu Gweithgaredd**, fe welwch y dudalen ganlynol:



Yma, bydd angen ichi nodi enw'r Gweithgaredd, disgrifiad ohono a'i ddyddiad dechrau a'i ddyddiad gorffen. I nodi'r dyddiadau, cliciwch ar fotwm y **calendr.** Wedi ichi fwydo'ch holl wybodaeth, cliciwch naill ai ar y botwm **Safio ac Ychwanegu Un Arall** (er mwyn ychwanegu eitem arall), neu'r botwm **Cadw a Dychwelyd** (os ydych wedi gorffen). Gallwch gofnodi cynifer o eitemau ag y dymunwch:

Ar ôl ateb yr holl gwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Cyflawni – Risg a Rheoli Risg

Ar y dudalen Cyflawni – Risg a Rheoli Risg, bydd angen ichi roi crynodeb yn y tabl o fan leiaf y pum risg fwyaf allai effeithio ar eich gallu i gyflawni'r prosiect a sicrhau allbynnau ac amcanion y prosiect.  Bydd hynny'n cynnwys:


- Beth yw'r risg ac a yw'n debygol o ddigwydd dros y cyfnod y bydd y prosiect yn cael ei ddarparu?
- Beth fyddai'n digwydd i'r prosiect pe bai yn digwydd?
- Pa gamau y gallech eu cymryd i geisio ei atal rhag digwydd ond esboniwch hefyd beth y gallech ei wneud i leihau'r effaith ar y prosiect pe bai'n digwydd.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb ychwanegu o leiaf 5 risg.





Cliciwch ar **Ychwanegu Risg** i ddechrau nodi'ch risg gyntaf.

Wrth glicio arno, fe welwch y sgrin cofnodi fel y'i gwelwch yn y sgrinlun isod:





Ar ôl i chi gofnodi'r holl wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Safio ac Ychwanegu Un Arall** er mwyn ychwanegu risg arall, neu'r botwm **Cadw a Dychwelyd** os ydych wedi gorffen.

Bydd gofyn ichi gofnodi o leiaf 5 risg wahanol. Os na fyddwch yn nodi o leiaf 5, fe welwch neges camgymeriad ac ni fydd yr adran hon yn ymddangos fel adran sydd wedi'i chwblhau, fel y gwelwch ar y sgrinlun isod:




Ar ôl ichi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect - Rheoli’r Prosiect

Ar y dudalen Rheoli’r Prosiect, bydd angen ichi roi’r wybodaeth ganlynol ar sut y caiff y Prosiect ei reoli:

- Esboniwch sut mae gan yr ymgeisydd y capasiti a’r adnoddau sydd eu hangen i gynnal y prosiect yn llwyddiannnus.
- Disgrifiwch brofiadau’r tîm rheoli a’r prif staff fydd yn gyfrifol am gynnal y prosiect.
- Rhowch fanylion y gweithgareddau fydd yn cael eu cynnal wrth roi’r prosiect ar waith i sicrhau ei fod yn llwyddiant e.e. hyfforddiant, y cyngor a dderbynnir ac ati.



Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect - Themâu Trawsbynciol

Ar y dudalen ‘Themâu Trawsbynciol’, bydd yn rhaid i chi esbonio sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at y themâu trawsbynciol canlynol:


- Cyfle Cyfartal a Phrif ffrydio Rhywedd;
- Mynd i’r Afael â Thlodi ac Allgáu Cymdeithasol;
- Y Gymraeg.

Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 2000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau, nid nifer y geiriau.


Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

Yn ôl i'r Cynnwys



Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect – Dangosyddion a Chanlyniadau

Ar y dudalen Dangosyddion a Chanlyniadau, byddwch yn esbonio sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at Ddangosyddion Perfformiad y cynllun.

Dyma’r dangosyddion fydd yn cael eu monitro o ganlyniad i’r buddsoddiad:
- Nifer y busnesau a gefnogir
- Nifer y swyddi fydd yn cael eu creu
- Effaith ar drosiant y busnes
- Yr arferion neu’r dechnoleg arloesol a gyflwynir

Bydd y ffurflen ar-lein yn rhestru’r dangosyddion perfformiad perthnasol a bydd angen ichi bennu targedau ar gyfer o leiaf **dau** ohonyn nhw.

Esboniwch sut y byddwch yn cyrraedd y targedau hyn.

Esboniwch sut y byddwch yn monitro cynnydd, gan gynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer gwerthuso annibynnol allanol os bydd angen.

Mae’n bosib na fyddwn yn gallu cefnogi’ch prosiect os na fyddwch wedi dewis o leiaf dau o’r dangosyddion lefel achos a ddangosir. Mae croeso ichi ddewis mwy na dau.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru gael gwybod targedau pob un o’r dangosyddion a ddewisir.  Bydd gofyn dadelfennu’r targedau hynny er mwyn gallu mesur cynnydd ar adegau gwahanol yn ystod oes y prosiect.


Dylid nodi hefyd efallai y cysylltir ag ymgeiswyr llwyddiannus yn y dyfodol at ddibenion ymchwil er mwyn mesur effeithiolrwydd y cynllun.

| **Enw'r Dangosydd Perfformiad** | **Diffiniad** |
|---|---|
| **Dangosyddion Lefel Achos** | ***RHAID BODLONI O LEIAF 2 dangosydd lefel achos*** |
| Nifer y busnesau a gefnogir. | Nifer y busnesau a gefnogir |
| | |
| Nifer y swyddi sy'n cael eu creu | Cyfanswm y swyddi parhaol sy'n cyfateb i amser llawn, yn ôl rhyw, fydd yn cael eu creu (nid eu cynnal) trwy'r prosiectau a gefnogir. Dim ond swyddi newydd y dylid eu cyfrif. Ni ddylid cynnwys swyddi sy'n cael eu cynnal. Cyfrifir hefyd yn unig y swyddi sy'n cael eu creu ar ôl i'r prosiect ddechrau h.y. os ydy'r prosiect yn creu siop fferm, ni ddylid cyfrif swyddi dylunio/adeiladu – yr ymgynghorwyr/penseiri/adeladwyr, dim ond y swyddi sy'n cael eu creu ar ôl i'r siopa agor (rheolwyr, cynorthwy-yyd ac ati). Ni ddylid cyfrif gwaith gwirfoddol ond dylid cynnwys gwaith hunangyflogedig. Cyfrifir swyddi sy'n cyfateb i rai amser llawn. Felly os bydd swydd hanner amser yn cael ei throi'n swydd amser llawn, gwerth y dangosydd yw 0.5 (bydd hanner swydd wedi'i chreu). I gyfrif un swydd sydd wedi'i chreu, dylai'r contract bara blwyddyn neu fwy (e.e. bydd contract chwe mis amser llawn yn 0.5 o swydd). |
| Effaith ar drosiant y busnes | Faint y dylai trosiant y busnes gynyddu dros 3 blynedd y prosiect. |
| Arferion neu dechnoleg arloesol a gyflwynir | O ganlyniad i'r buddsoddiad, nodwch nifer yr arferion neu'r gweithgareddau busnes fydd yn cael eu gwella trwy gyflwyno arferion neu dechnoleg arloesol (e.e. plannu â pheiriant yn lle plannu â llaw; monitro tymheredd storfeydd cnydau; gwasgaru gwrtaith yn fanwl-gywir ac ati). |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

# Dangosyddion a Chanlyniadau


Ar y dudalen Dangosyddion a Chanlyniadau, byddwch yn rhoi gwybodaeth ynghylch sut y byddwch yn taro'r targedau ac yn monitro cynnydd i fodloni'r Dangosyddion Lefel Achos.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb eu hateb.





Ar y Tabl Dangosyddion Lefel Achos, cliciwch ar y botwm glas 'Ychwanegu Dangosydd' i roi ymatebion i'r Dangosyddion Lefel Achos, fel yn y tabl uchod.


Dewiswch y Dangosydd Lefel Achos rydych am ymateb iddo o'r rhestr a welwch ar y gwymplen.



Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb eu hateb.





***<u>RHAID RHOI TYSTIOLAETH O LEIAF 2 DDANGOSYDD LEFEL ACHOS</u>***




Ar ôl ichi nodi'ch ymatebion i'r ddau Ddangosyddion Lefel Achos, safiwch yr wybodaeth ac ewch yn ôl i brif dudalen y Dangosyddion a'r Canlyniadau.

Ar ôl ichi nodi’ch ymatebion i’r Dangosyddion Lefel Achos, safiwch yr wybodaeth ac ewch yn ôl i brif dudalen y Dangosyddion a’r Canlyniadau.

Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




Yn ôl i'r Cynnwys

# Cynllun y Busnes/Prosiect - Ariannol a Chydymffurfio

Yn is-adran olaf Cynllun y Busnes/Prosiect bydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth am agweddau ariannol eich prosiect a'r gofynion cydymffurfio.

**Pob prosiect**

Pa arian fyddwch chi'n ei ddefnyddio i dalu am elfen y prosiect nad oes grant ar gael ar ei chyfer? Rhowch dystiolaeth o ohebiaeth os medrwch.

Pa ffynonellau arian wnaethoch chi ymchwilio iddyn nhw i ariannu'r prosiect cyn gofyn am grant? Rhowch dystiolaeth o ohebiaeth os medrwch.

Pa arian sydd gan y busnes eisoes? Rhowch dystiolaeth o unrhyw orddrafft/benthyciad neu gyfleuster bancio arall rydych wedi'i gael.

Esboniwch yn fanwl pam mae angen y swm penodol o grant rydych wedi gofyn amdano.

Wrth ateb yr uchod, rhaid ichi ystyried a chynnwys y canlynol yn eich esboniadau:

Esboniwch sut y byddwch chi, yr ymgeisydd, yn ysgwyddo'r ymrwymiadau ariannol a chydymffurfiaeth sydd ynghlwm wrth y prosiect

Disgrifiwch o ble daw'r cyllid ar gyfer y cynnig. Rhaid ichi nodi a yw'r ffynhonnell eisoes wedi'i chael neu yn yr arfaeth. Gall y data ariannol ymdrin â phedair elfen:


- Cyfrif elw a cholled;
- Y fantolen;
- Rhagolygon arian parod;
- A Throsiant.

Rhowch eich rhagolygon o ran trosiant a llif arian.

Rhestrwch eich ffynonellau ymchwil.

Rhowch asesiad o ba mor fforddiadwy yw'r prosiect h.y. tystiolaeth bod y grant yn ddigon i'r ymgeisydd allu ysgwyddo'r costau.


Ar y dudalen Ariannol a Chydymffurfio, byddwch yn esbonio sut y caiff y Prosiect ei ariannu, yn ogystal ag unrhyw grant a gewch, a sut y byddwch yn cydymffurfio ag unrhyw ymrwymiadau.




Mae modd estyn y blychau testun er mwyn i chi allu teipio hyd at 4000 o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch chi ddim cyflwyno'r ffurflen heb eu hateb.

Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





Yn ôl i'r Cynnwys


# Rhestr o’r Dogfennau Atodol sydd eu hangen

Ar y dudalen ‘Rhestr o’r Dogfennau Atodol sydd eu hangen’ ceir rhestr o’r holl ddogfennau mae’n rhaid i chi eu cyflwyno gyda’ch cais, ynghyd â rhestr o rai o’r dogfennau eraill y gall fod angen i chi eu cyflwyno i ategu’ch cais, gan ddibynnu ar eich prosiect.


**Rhaid** cyflwyno’r holl ddogfennau ategol erbyn y dyddiad cau.




Rhaid i chi ddewis o leiaf un ffordd o gyflwyno dogfennau ategol er mwyn symud ymlaen i’r dudalen nesaf.




Ar ôl i chi orffen dewis eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf**.





Yn ôl i'r Cynnwys

# Cyflwyno


## Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Bydd yr adran nesaf yn dangos unrhyw gamgymeriadau yn eich cais, a Chrynodeb o'ch cais.




Ni fydd unrhyw destun y byddwch wedi'i ysgrifennu yn y blychau testun mawr yn ymddangos fan hyn ond byddwn yn ei ddangos yn y crynodeb PDF a gewch trwy RPW Ar-lein ar ôl ichi gyflwyno'ch cais yn llwyddiannus.

Mae'r sgrinlun canlynol yn dangos y neges fydd yn cael ei dangos os oes camgymeriadau a byddwn wedi nodi'r camgymeriadau hynny i chi gael eu cywiro:





Ar ôl i chi edrych trwy'r crynodeb a chywiro unrhyw gamgymeriadau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





Yn ôl i'r Cynnwys

# Datganiad ac Ymrwymiadau


Rhaid i chi ddarllen yr adran ‘Datganiad ac Ymrwymiadau’ a welwch yn y sgrinlun isod. Ar ôl i chi wneud hyn, ticiwch y blwch ar waelod y sgrin i gadarnhau eich bod yn cytuno â nhw, fel y dangosir yn y sgrinlun isod:




Ar ôl i chi ddarllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau, **ticiwch** y blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen a’ch bod yn cytuno â nhw.





Cliciwch ar y botwm **Nesaf** i fynd i’r dudalen ‘Cyflwyno’.





[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Tudalen Gyflwyno




I gyflwyno Ffurflen Gais y Cynllun Datblygu Garddwriaeth, cliciwch ar y botwm **Cyflwyno**.

Ar ôl i'ch cais gael ei gyflwyno, fe welwch y dudalen Cadarnhad, a gallwch argraffu copi o'r dudalen hon ar gyfer eich cofnodion trwy ddewis y botwm **Printio'r Sgrin Hon**.




Yn awr, gallwch ddewis y botwm **Cyflwyno Dogfennau** er mwyn cael mynd yn syth at eich tudalen Negeseuon ar RPW Ar-lein, neu gallwch ddewis y botwm **Gadael**.

**Pwysig:** Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, ni allwch newid yr eitemau rydych wedi'u dewis.

[Yn ôl i'r Cynnwys]

# Ar ôl Cyflwyno'r Cais yn Llwyddiannus

Bydd crynodeb o Ffurflen Gais y Cynllun Datblygu Garddwriaeth yn cael ei ychwanegu at eich tudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl "Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru". Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd ati'n ofalus i wirio'r wybodaeth a gyflwynwyd. Os gwelwch fod unrhyw wybodaeth yn anghywir, atebwch y Neges gan nodi'ch pryderon. Gwnewch hyn cyn gynted ag y gwelwch unrhyw wybodaeth anghywir.

Os cewch broblemau neu os nad ydych yn gallu mynd i'n gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

Os caiff eich cais ei ddewis, byddwch yn cael gwybod trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein. Rhaid ichi naill ai dderbyn neu wrthod y cynnig trwy lenwi Atodiad y Cais fydd wedi'i gynnwys gyda'r llythyr yn eich hysbysu'ch bod wedi'ch dewis, a'i anfon i Lywodraeth Cymru trwy'ch cyfrif ar-lein erbyn y dyddiad fydd wedi'i nodi ar eich llythyr.

Cewch wybod trwy gyfrwng eich cyfrif RPW Ar-lein a yw eich cais wedi'i ddewis ac a fydd yn cael ei werthuso'n llawn ar gyfer ystyried cynnig contract iddo.

Yn achos ceisiadau na fyddant yn llwyddiannus yn ystod y broses ddethol, rhoddir gwybod i chi trwy gyfrwng eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y canllawiau, oherwydd gall peidio â gwneud hynny arwain at oedi cyn gwerthuso'r cais.

Yn ôl i'r Cynnwys

# Cysylltiadau

## RPW Ar-lein

Gallwch fynd at wasanaethau RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth yn www.gateway.gov.uk, neu ar ôl ichi gofrestru ar gyfer gwasanaethau RPW Ar-lein, ewch i **RPW Ar-lein**. Os nad ydych wedi cofrestru eto ag RPW Ar-lein, ewch i wefan Llywodraeth Cymru am wybodaeth ar sut i gofrestru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

Ymholiadau - y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid
Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Llywodraeth Cymru.

Gallwch ofyn cwestiwn unrhyw bryd ar RPW Ar-lein.

## Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb y gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i **wefan Llywodraeth Cymru**. Bydd cyfle ichi gofrestru arni am y daflen e-newyddion, Gwlad